



YSGOL GYMRAEG PONTARDAWE
CYLCHLYTHYR MEDI 2020 / [SEPTEMBER 2020 NEWSLETTER](#)

www.npted.org/schools/primary/yggpontardawe
yggpontardawe@npt.school
<https://twitter.com/YGGPontardawe>

Annwyl rieni a gofalwyr / *Dear Parents and Carers*

Gair mawr o ddiolch i'n rhieni a'n gofalwyr oll am eich cymorth, cydweithrediad a'ch amynedd gyda'r trefniadau diweddar. Rydych wedi bod yn rhagorol. Nod y system yw sicrhau cyn lleied â phosib o gyswllt rhwng y gwahanol ddosbarthiadau a rhwng oedolion ger clwyd yr ysgol. O wneud hyn, petai achos yn yr ysgol, byddai'n lleihau'r gwasgariad yn y gymuned a lleihau'r effaith ar rediad yr ysgol. Rydyn yn atodi canllawiau gan Rwydwaith Ysgolion Iach ar gyfer rhieni. Mae'n cynnwys gwybodaeth ddefnyddiol i rieni ynghlŷn â dychwelyd i'r ysgol, symptomau'r firws a sut mae trefnu prawf.

Many thanks to all our parents and carers for your help, co-operation and patience with the recent arrangements. You have been outstanding. The aim of the system is to minimise contact between different classes and between adults near the school gate. In doing this, should a case occur at the school, transmission in the community would be minimised as would the impact on the running of the school. We attach guidelines to parents from the Healthy Schools Network. It contains useful information regarding returning to school, the symptoms of the virus and how to arrange a test.

Pwysig / Important

Os yw disgybl yn **derbyn canlyniad prawf positif** gofynnwn i rieni ddefnyddio'r protocol isod os gwelwch yn dda. E-bostiwch yr ysgol gyda'r canlynol

Pwnc : "Pwysig – Covid"

Neges : "Cysylltwch â mi ar y rhif canlynol ..."

Peidiwch cynnwys unrhyw wybodaeth arall ac fe gysylltwm â chi cyn gynted ag y bo modd. Mae'r sir wrthi yn paratoi e-bost penodol ar gyfer pob ysgol. Pan dderbyniwn hwn, fe hysbyswn chi.

*Should a pupil receive a **positive test result** we ask parents to use the protocol below. Email the school with the following*

Subject: "Important - Covid"

Message: "Contact me on the following number ..."

Please do not include any other information and we will contact you as soon as we can. The authority is in the process of preparing a specific email for each school. When we receive this, we will inform you.

Cofiwch / Remember

Mae angen i rieni i wirio nad yw eu plant yn dangos unrhyw symptomau cyn mynychu - tymheredd uchel, pyliau peswch cyson newydd a cholled neu newid i arogl neu flas. Os ydynt yn arddangos y symptomau yma, **ni ddylent fod yn yr ysgol ar unrhyw gyfrif a dylid trefnu prawf.**

*Parents need to check that their children are not showing any symptoms before attending - high temperature, constant new coughs and loss or a change in smell or taste. If they exhibit these symptoms, **they should not be in school under any circumstances and a test should be arranged.***

Cinio Ysgol / School Dinners

Bydd angen i ddisgyblion barhau i ddod â'u pecyn cinio eu hunain, byrbryd iach a photel ddŵr (wedi'u labelu'n glir â'u henw). O ddydd Llun 21^{ain}, i'r rhai sy'n dymuno a disgyblion prydau bwyd am ddim, bydd ciniawau twym yn ail gychwyn. Y gost yw £2.35 y dydd (£11.75 yr wythnos). Dim ond drwy ParentPay y gallwn dderbyn taliadau ar hyn o bryd. Peidiwch danfon arian parod i'r ysgol os gwelwch yn dda. Mae hefyd angen talu erbyn y dydd Gwener blaenorol. Yn amlwg mae'r wythnos yma yn eithriad! Mae'r fwydlen ddyddiol ar gael trwy glicio [Bwydlen Ysgol](#). Wythnos nesaf fydd wythnos 3.

www.npted.org/schools/primary/yggpontardawe
yggpontardawe@npt.school
<https://twitter.com/YGGPontardawe>

Pupils will need to continue to bring their own packed lunch, healthy snack and water bottle (clearly labelled with their name). From Monday 21st, for those who wish and pupils of free school meals, hot lunches will resume. The cost is £ 2.35 per day (£ 11.75 per week). We can currently only accept payments through ParentPay. Please do not send cash to school. Payment is also required by the previous Friday. Obviously this week is an exception! The daily menu is available by clicking [School Menu](#). Next week will be week 3.

Clwb Brecwast / Breakfast Club

Yn anffodus, ar hyn o bryd, ni allwn gynnig dyddiad ar gyfer ail gychwyn y clwb brecwast. Pan fyddwn yn barod i ail gychwyn, fe'ch hysbyswn.

Unfortunately, at this time, we cannot offer a date for the restart of the breakfast club. When we are ready to restart, we will inform you.

Clybiau ôl ysgol / After school clubs

Yn yr un modd, gan na allwn gymysgu disgyblion, ar hyn o bryd ni allwn gynnig clybiau ôl ysgol ar hyn o bryd. *Again, as we cannot mix pupils, we cannot currently offer after school clubs.*

Gollwng a Chasglu / Drop Off and Collection

Mae'r system gollwng a chasglu ar hyn o bryd yn rhedeg yn llyfn. Mae'n debygol y bydd y system yn para am rai wythnosau os nad misoedd i ddod. I gynnal y llif drwy'r maes parcio atgoffwn bawb o bwysigrwydd cyrraedd rhwng yr amseroedd gollwng a chasglu priodol ac nid cyn nac ar ôl hynny. Mae pawb wedi dangos gymaint o gydweithrediad. Allwn barhau yn yr un modd, diolch. (Amseroedd isod)

The drop-off and collection system is currently running smoothly. The system is likely to last for some weeks if not months to come. To maintain the flow through the car park we remind everyone of the importance of arriving between the appropriate drop off and collection times and not before or after. Everyone has been so cooperative. Please continue in the same way, thank you. (Times listed below)

Pellter Cymdeithasol / Social Distancing

Eto, atgoffwn rieni i barchu rheoliadau pellhau cymdeithasol wrth glwyd yr ysgol ac yn enwedig gyda staff yr ysgol. Gofynnwn i chi osgoi sgwrsio yn y maes parcio a gwagio'r maes parcio cyn gynted â phosib. Diolch i chi. Yn anffodus, ni fydd y staff ar gael i siarad â rhieni ar ddechrau a diwedd y dydd gan fod yn rhaid i ni leihau'r cyswllt rhwng oedolion ar y safle. Os oes angen i chi siarad â'r athro, e-bostiwch yr ysgol ac fe gysylltant â chi.

Again, we remind parents to respect social isolation regulations at the school gate and especially with school staff. Please avoid chatting in the car park and leave the car park as soon as possible. Many thanks.

Unfortunately, staff will not be available to talk to parents at the beginning and end of the day to reduce contact between adults on site. If you need to talk to the teacher, email the school and they will contact you.

Bysus / School Transport

Mae trafniadaeth ysgol (bysus) yn rhedeg fel arfer. Mae trefniadau yn eu lle i dderbyn disgyblion sy'n cyrraedd yr ysgol ar fws. Efallai fod amser casglu a gollwng wedi'i effeithio ychydig. Gwiriwch gyda'r cwmni bws.

School transport (buses) is running normally and arrangements are in place to admit pupils arriving at school by bus. Collection and drop off times may have been slightly affected. Please check with the bus company.

Derbynfa / Reception

Bydd y dderbynfa **ar gau** ac ni fydd ymwelwyr yn cael mynediad i'r ardal yma heb apwyntiad. Am y tro gofynnwn i chi ond i ddefnyddio'r ffôn pan ei bod yn angenrheidiol. Defnyddiwch y cyfeiriad e-bost ar waelod y cylchlythyr os gwelwch yn dda. Pwysleisiwn – ni fydd drws y dderbynfa yn cael ei agor. Os yw'r disgyblion yn hwyr, arhoswch yn y maes parcio, ffoniwch yr ysgol ac fe drefnwn aelod i staff gasglu'r disgybl o'r maes parcio.

*The reception area is **closed** and visitors will not gain access to this area without an appointment. For the time being we ask you only to use the phone when it is necessary. Please use the email address at the bottom of the newsletter. **We emphasise - the reception door will not be opened**. If pupils are late, stay in the car park, telephone the school and we will arrange for a member of staff to collect the pupil from the car park.*

Hylendid / Hygiene

Trwy gydol y dydd, bydd pwyslais ar hylendid a golchi dwylo'n rheolaidd. Mae'r awdurdod yn awyddus iawn i osgoi sefyllfa debyg i'r hyn sy'n digwydd yn Rhondda Cynon Taf ac yng Nghaerffili yma. Maent yn gofyn i ysgolion annog y disgyblion (yn enwedig y disgyblion hynaf) i fod yn llysgenhadon pellhau cymdeithasol a hylendid. Byddai modd i rieni atgyfnerthu hyn gyda'u plant?

Throughout the day, there will be an emphasis on hygiene and regular hand washing. The authority is very keen to avoid a similar situation to that in Rhondda Cynon Taff and Caerphilly here. They are directing schools to encourage pupils (especially the older pupils) to be ambassadors of social distancing and hygiene. Could parents also reinforce this with their children?

Cyswllt Rhieni / Parent Links

Ni fyddwn yn gallu cynnal yr un gweithgareddau cychwyn blwyddyn eleni fel yn y blynyddoedd diwethaf. Bydd yr athrawon yn e-bostio gwybodaeth am drefn y dosbarth a'r cwricwlwm ddiwedd yr wythnos yma neu ddechrau'r wythnos nesaf. Rhag ofn y byddwn yn wynebu cyfnod clo arall neu'n wynebu sefyllfa o grwpiau o ddisgyblion yn hunan ynysu adref, byddwn yn parhau i ddanfôn gwaith i gyfrifon Hwb disgyblion. Ceisiwch sicrhau fod eich plant yn mewngofnodi adref. Bydd athrawon yn danfôn gwaith cartref i'r cyfrifon yma'n rheolaidd (yn unol â threfn y dosbarth). Bydd y blogiau pythefnosol hefyd yn parhau a fydd yn rhoi blas i rieni o weithgareddau'r adran a'ch hysbysu o unrhyw ddigwyddiadau.

We are not going to be able to hold our normal welcoming activities as in previous years. Teachers will be emailing information about the class routine and the curriculum at the end of this week or early next week. In case we face another lockdown or a situation where a group/class need to self-isolate at home, we will continue to send work to pupils' Hub accounts. Try to ensure that your children continue to log on at home. Teachers send homework to these accounts on a regular basis (in accordance with class organisation). The fortnightly blogs will also continue to provide parents a taste of the department's activities and keep you informed of any upcoming activities.

Gwersi Offerynnol / Instrument Lessons

Os hoffech i'ch plentyn gychwyn gwersi offerynnol eleni, gadewch i ni wybod. Cofiwch, fel rhan o'r ddarpariaeth, gellir benthg offerynnau am ddim.

If you would like your child to take up instrumental lessons, please let us know. Remember, these lessons can also include a free loan of an instrument.

(Cyfraniad o £120 y flwyddyn / £3:15 yr wythnos / *Contribution of £120 a year / £3:15 a week*)

Dydd Llun / *Monday* - Telyn / *Harp* (Miss Katie Bayliss)

Dydd Mawrth / *Tuesday* - Prês / *Brass* (Mr Chris Thomas / Mr Wayne Pedrick)

Dydd Iau / *Thursday* - Drymiau / *Drums* (Mr Lyn Rees)

Dydd Gwener / *Friday*- Llinynnol / *Strings* (Mrs Sharon Williams)

Ymweliadau Addysgol / Educational Visits

Fel y gwyrddoch, mae ymweliadau addysgol a phrofiadau uniongyrchol yn rhan ganolog i'n darpariaeth gwricwlaidd fel ysgol. Fe welwch o'r dyddiadur mai ychydig iawn yr ydym wedi llwyddo i'w drefnu hyd yma. Yn araf bach mae'r lleoliadau yn ail agor. Trefnir ymweliadau cyn gynted ag y gallwn. Yn anffodus, mae ein rhaglen o ymweliadau preswyl wedi'i effeithio'n sylweddol. Mae'n annhebygol y bydd unrhyw ymweliad preswyl tan o leiaf tymor y Gwanwyn ac o bosib ar ôl hynny. Gwnawn ein gorau i gynnal ymweliadau yn enwedig i'r dosbarthiadau gohiriwyd y tymor diwethaf. Mae'r swyddfa yn gwneud ei gorau i drefnu ad-daliadau i bawb ond yn profi anawsterau dybryd gyda'r system Parentpay. Pan fydd yr anawsterau wedi eu datrys, bydd pawb yn derbyn ad-daliadau.

As you know, educational visits and first-hand experiences are central to our curricular provision as a school. You will see from the diary that we have been able to organise very little to date. Slowly, venues are re-opening. Visits will be arranged as soon as possible. Unfortunately, our program of residential visits has been a major casualty. It is unlikely that any residential visit will take place until at least the Spring term and possibly the summer term. We do our best re-arrange the visits especially for classes who suffered cancellations to their residential last term. The office is working hard to arrange refunds but is experiencing difficulties with the Parentpay system. Once the difficulties have been resolved, everyone will receive refunds.

Ffurflenni i Rien / Parent Forms

Bydd y ffurflenni isod yn cael eu danfôn adref dros y dyddiau nesaf. Os allwch eu dychwelyd cyn gynted ag y bo modd? Diolch.

The following forms will be sent out over the coming days. Could we ask you kindly to return them as soon as you can?

Gwybodaeth rhyddhau diwedd dydd / *End of day handover information*
Taflen Data Disgybl / *Pupil Data Sheet*
Cytundebau Cerddoriaeth / *Music Contracts (For Pupils in Receipt of Instrument Lessons)*
Cytundebau Cartref Ysgol / *Home School Agreements*

HMS / INSET

Mae'r diwrnodau HMS sydd eisoes wedi'u trefnu ar gyfer y flwyddyn academaidd nesaf isod. Mae hyn yn gadael dau diwrnod HMS i'w trefnu ar gyfer y flwyddyn sydd i ddod. Fe rown gymaint o rybudd a phosib i chwi wedi trefnu'r rhain.

INSET days already planned for the next academic year are listed below. This leaves two INSET days yet to organise. As soon as these are organised, we will provide as much notice as possible.

Dydd Gwener, Hydref 23^{ain} / *Friday, October 23rd 2020*
Dydd Llun, Rhagfyr 21^{ain} 2020 / *Monday December 21st 2020*
Dydd Mawrth, Rhagfyr 22^{ain} 2020 / *Tuesday, December 22nd 2020*
Dydd Gwener, Gorffennaf 16^{eg} 2021 / *Friday, July 16th 2021*

Mae'r disgyblion wedi ymgartrefu yn ôl yn yr ysgol ac i'r drefn sy'n wahanol iawn i'r arfer. Gobeithio y cawn gyfnod o normalrwydd cyn hir. Alla i ddiolch unwaith eto i chi i gyd am eich cefnogaeth a'ch dealltwriaeth barhaus. Os ydych chi ein hangen ni, cysylltwch trwy e-bost yn yggpontardawe@npt.school.

The pupils have settled back into school and into a routine that is very different from which they are accustomed to. Hopefully, we will soon reach a time of normality. I can once again thank you all for your continued support and understanding. If you need us, please contact by email at yggpontardawe@npt.school.

Cadwch yn saff / *Stay safe.*



Ceri Emanuel
Pennaeth / *Headteacher*
18.09.20

Trefniadau Gollwng a Chasglu / Drop off and Collection times

| Dosbarthiadau / Classes | Amser Gollwng / Drop off slot | Amser Casglu / Collection slot |
|--|--------------------------------------|---------------------------------------|
| Mr Owen (B6) a Mr Lewis (B5) | 8:30 - 8:40am | 2:40 - 2:50pm |
| Mrs Hogarth (B3), Mrs Richards / Miss A Davies (B3&4) a Miss M Davies (B4) | 8:40 - 8:50am | 2:50 - 3:00pm |
| Miss Lewis (B2), Mrs Saunders (B1&2) a Miss Stephanie Davies (B1) | 8:50 - 9:00am | 3:00 - 3:10pm |
| Mrs Jones Fowler (D&B1), Mrs Jones / Mrs Morgan (Derbyn) | 9:00 - 9:10am | 3:10 - 3:20pm |
| Mrs Laura Evans (Meithin Bore / Morning Nursery) | 9:10 - 9:20am | 11:20 - 11:30am |
| Mrs Laura Evans (Meithin Prynawn / Afternoon Nursery) | 12:15 - 12:25pm | 2:25 - 2:35pm |

Ychydig o ddyddiadau ar gyfer tymor sydd i ddod ----->
A few dates for the term ahead

www.npted.org/schools/primary/yggpontardawe
yggpontardawe@npt.school
<https://twitter.com/YGGPontardawe>

Ysgol Gymraeg Pontardawe
Dyddiadur Hydref 2020 / *Autumn 2020 Diary*

| | |
|---|--|
| Dydd Mercher Medi 23 ^{ain} <i>Wednesday, October 23rd</i> | B5 – Ymweliad i Amgueddfa Abertawe yn y 40 ^{au} <i>Y5 – Visit to Swansea in the 1940^s Exhibition</i> |
| Dydd Iau Medi 24 ^{ain} <i>Thursday, October 24th</i> | B6 – Ymweliad i Amgueddfa Abertawe yn y 40 ^{au} <i>Y6 – Visit to Swansea in the 1940^s Exhibition</i> |
| Iau a Gwener Hydref 8 ^{fed} a'r 9 ^{fed} <i>Thursday and Friday October 8th and 9th</i> | Nyrs Ysgol – Chwistrell Ffliw (D i F6) <i>School Nurse – Nasal Flu Inoculation (R to Y6)</i> |
| Dydd Mawrth Hydref 13 ^{eg} <i>Tuesday, October 13th</i> | Finesse – Lluniau Unigol <i>Finesse Photography – Individual Photographs</i> |
| Dydd Gwener, Hydref 23 ^{ain} <i>Friday, October 23rd</i> | HMS <i>INSET</i> |
| Hanner Tymor – Hydref 24^{ain} i Tachwedd 2^{ail} <i>Half Term – October 24th to Monday, November 2nd</i> | |
| Tachwedd 18 ^{fed} i'r 25 ^{ain} <i>November 18th to 25th</i> | Llyfrau Teithiol yn ymweld â'r ysgol (cyfle i brynu llyfrau) <i>Travelling Books in school (opportunity for pupils to purchase)</i> |
| Dydd Llun, Rhagfyr 21 ^{ain} <i>Monday, December 21st</i> | HMS <i>INSET</i> |
| Dydd Mawrth, Rhagfyr 22 ^{ain} <i>Tuesday, December 22nd</i> | HMS <i>INSET</i> |
| Diwedd Tymor – Cau ar ddydd Mawrth, Rhagfyr 22^{ain} ac yn ail agor ar ddydd Llun, Ionawr 4^{ydd} <i>End of Term – School closes on Friday, December 22nd and will re-open on Monday, January 4th</i> | |